lightsource bp

# Y BROSES GYNLLUNIO

Caiff ein Tîm Cynllunio Amgylcheddol a Chynaliadwyedd mewnol eu cydnabod fel arbenigwyr yn y diwydiant ac mae ganddynt brofiad sylweddol o bob agwedd ar gynllunio ffermydd solar, o'r gwerthusiadau cychwynnol i fonitro cydymffurfiaeth ar safleoedd gweithredol. Defnyddiwn broses asesu drylwyr ar gyfer pob safle, gan ddefnyddio gwybodaeth leol gan gymunedau ac arbenigwyr i ddatblygu ceisiadau cynllunio manwl ac asesiadau amgylcheddol. Mae cyfnodau allweddol ein proses yn cynnwys:

## Asesiad o'r Safle

Caiff ein safleoedd eu hasesu'n drylwyr (gan gynnwys mapio cyfyngiadau ac ymweliadau â'r safle) gan ein tîm cynllunio cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â phrosiect ai peidio.

## Asesiad Amgylcheddol

Cyflogir arbenigwyr technegol annibynnol i asesu'r effeithiau posibl yn drylwyr ac i nodi mesurau i liniaru neu osgoi'r effeithiau hynny.

## Ymgysylltiad â Rhanddeiliaid

Rydym yn hysbysu ac yn ymgynghori â chymunedau lleol a rhanddeiliaid, ac yn teilwra ein cynlluniau a'n cynlluniau rheoli yn unol â'r adborth a dderbynnir.

## Cais Cynllunio

Rydym yn cydlynu'r gwaith o baratoi a chyflwyno ceisiadau cynllunio a thrwyddedau amgylcheddol, gan gysylltu â'r awdurdod perthnasol sy'n gwneud y penderfyniadau er mwyn sicrhau ymatebion prydlon i unrhyw ymholiadau neu geisiadau am wybodaeth ychwanegol.

## Ar ôl Cymeradwyaeth

Ar ôl cael caniatâd cynllunio, mae ein tîm yn paratoi crynodebau manwl o'r amrywiol rwymedigaethau cynllunio y mae'n rhaid eu dilyn yn ystod yr adeiladu a'r gweithredu.

## Ar ôl Adeiladu

Ar ôl cwblhau ein ffermydd solar, rydym yn ymweld â phob safle er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'n trwyddedau cynllunio ac amgylcheddol ac i baratoi rhestr mân broblemau, sef unrhyw eitemau adferol y mae angen eu cwblhau.

## Gweithredu

Rydym ar gael i'n tîm Rheoli Ased er mwyn rhoi sylw i unrhyw faterion cynllunio a helpu i fonitro gofynion arolygon amgylcheddol parhaus pan fo hynny'n berthnasol.

# YMGYSYLLTIAD CYMUNEDOL PARHAUS



Rydym yn ymfalchïo'n fawr mewn ymgysylltu â chymunedau lleol, nid yn unig wrth gynllunio a datblygu ein prosiectau, ond drwy gydol oes y ffermydd solar. Yn ogystal â chynnal diwrnodau agored a theithiau tywys i drigolion, ysgolion a grwpiau lleol, rydym hefyd wedi cynorthwyo nifer o fyfyrwyr addysg uwch ac ecolegwyr â phrosiectau ymchwil bioamrywiaeth drwy roi mynediad iddynt i'n safleoedd.

# CYFLEOEDD ADDYSGOL

O ystyried natur oddefol ffermydd solar, mae'n eithaf diogel i ni gynnal teithiau tywys. O'r herwydd, gall ein prosiectau fod yn adnodd addysgol ardderchog i gymunedau sydd eisiau dysgu mwy am bŵer solar ar garreg eu drws. Rydym wedi cynnal nifer o ymweliadau i'n ffermydd solar gweithredol ar gyfer ysgolion, prifysgolion, cynghorau lleol ac amrywiol grwpiau cymunedol.

